## Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio i'r Cyfarfod Llawn 2004-05

1. Dyma'r ail adroddiad blynyddol ar waith Pwyllgor Archwilio yr Ail Gynulliad, fel sy'n ofynnol yn ôl Rheol Sefydlog 12.2. Mae'n crynhoi gwaith y Pwyllgor rhwng Mehefin 2004 a Mai 2005.

2. Pwrpas y Pwyllgor Archwilio yw sicrhau bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru a chyrff cyhoeddus eraill yn gweithredu o fewn y safonau uchaf posibl wrth reoli eu materion ariannol. Mae'n cynnig sicrwydd i bobl Cymru bod arian cyhoeddus yn cael ei wario'n ofalus, mae'n arf ataliol yn erbyn gwastraff, ac yn rhoi arweiniad i'r sector cyhoeddus yng Nghymru i wella ei waith.

3. Nid yw'r Pwyllgor yn dilyn llinellau gwleidyddol er mwyn gallu rhoi barn ddiduedd ar y ffordd y mae polisïau'n cael eu gweithredu, ac i edrych ar waith Archwilydd Cyffredinol Cymru. Rhoddir manylion am aelodaeth y Pwyllgor a manylion pellach am ei rôl yn Atodiad 1.

### Crynodeb o waith y Pwyllgor

#### *Adroddiadau'r Pwyllgor Archwilio a gwaith craffu cysylltiedig*

4. Yn ystod y flwyddyn adrodd, mae'r Pwyllgor wedi edrych ar bynciau sy'n ymestyn ar draws holl sbectrwm y sector cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r rhain wedi amrywio o bwnc amserol iawn Amseroedd Aros y GIG i berfformiad Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru wrth reoli ei chasgliadau. Mae wedi cynnal 11 cyfarfod, gan gynnwys 10 sesiwn dystiolaeth, gan holi cyfanswm o 34 o dystion. Yn dilyn ei archwiliadau, mae'r Pwyllgor wedi cyhoeddi wyth adroddiad[1], sydd, gyda'i gilydd, wedi cynnwys cyfanswm o 94 o argymhellion i wella gwariant cyhoeddus a darpariaeth gwasanaethau.

5. Yn gysylltiedig â'r gwaith hwn hefyd, mae'r Pwyllgor wedi ystyried wyth ymateb ar wahân gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar ei adroddiadau. Roedd yr ymatebion hyn cynnwys 82 o argymhellion, gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru'n derbyn (neu'n cytuno) â 80 yn ffurfiol.

6. Ar ôl cyhoeddi ei ‘Adroddiad Blynyddol i'r Cyfarfod Llawn 2003-04’[2], yr oedd y Pwyllgor yn teimlo ei bod yn bryd bwrw golwg yn ôl dros ei gyflawniadau, a rhai ei ragflaenydd, ym Medi 2004. I'r diben hwn, bu'r Pwyllgor yn ystyried crynodeb o'i waith ers datganoli, gan gynnwys trefniadau dilynol i weithredu'r argymhellion a wnaethpwyd i Lywodraeth Cynulliad Cymru. O ganlyniad i drafodaeth, cytunodd y Pwyllgor dderbyn adroddiad

---

[1] ‘Rheoli Absenoldeb oherwydd salwch gan Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru’; ‘Rheoli'r Casgliadau yn Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru'; ‘Cyllidau GIG Cymru 2004’; ‘Adroddiad Cyffredinol Archwilydd Cyffredinol Cymru 2004’; ‘Cronfeydd Strwythurol yr Undeb Ewropeaidd: Hynt y gwaith o sicrhau'r manteision i Gymru’; ‘Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru: Rheoleiddio rheoli gwastraff; ‘Caffael yn y Sector Addysg Uwch yng Nghymru; ac ‘Amseroedd Aros y GIG yng Nghymru’.

[2] ‘Adroddiad Blynyddol i'r Cyfarfod Llawn 2003-04’, Y Pwyllgor Archwilio, Mehefin 2004.

tebyg yn flynyddol a gofynnodd am ddiweddariad pellach ar weithredu'r argymhellion a wnaethpwyd yn 'Caffael Meddyginiaethau Gofal Sylfaenol'[3].

### *Prif themâu ein gwaith craffu*

7. Roedd pedair prif thema gyffredin i waith craffu'r Pwyllgor yn ystod y flwyddyn:

- gwella ansawdd bywyd;
- annog defnydd doethach o adnoddau presennol;
- cefnogi prynu gwell;
- rheolaeth ariannol dda.

#### *Gwella ansawdd bywyd*

8. Wrth ystyried adroddiadau gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, bu'r Pwyllgor yn awyddus i ofyn cwestiynau ar effaith gwasanaethau ein hetholwyr a phobl Cymru'n gyffredinol. O ganlyniad, mae cwmpas ein hadroddiadau'n mynd y tu hwnt i ystyriaethau ariannol yn unig ac yn edrych ar faterion effeithiolrwydd ehangach.

9. Er enghraifft, yn ein hadroddiad, *Amseroedd aros y GIG yng Nghymru,* yr ydym yn cydnabod effaith niweidiol amseroedd aros ar gleifion, eu teuluoedd a'u gofalwyr, yn ogystal â'r costau cymdeithasol ac economaidd ehangach. Nodwyd hefyd, er gwaethaf y cynnydd o 26 y cant mewn gwariant ar y GIG yng Nghymru rhwng 2000-01 a 2003-04, nid yw amseroedd amser yng Nghymru'n cymharu'n ffafriol â'r sefyllfa yn Lloegr a'r Alban. Er gwaethaf gostyngiadau diweddar mewn amseroedd aros, mae cleifion yng Nghymru'n parhau i orfod wynebu amseroedd aros annerbyniol o dros 18 mis.

10. Mae ein hadroddiad wedi amlygu'r nifer uchel ac annerbyniol o lawdriniaethau sy'n cael eu canslo ar fyr rybudd. Clywsom am gost bersonol hyn i gleifion unigol, a all fod wedi bod yn aros am amser hir neu a all fod wedi gorfod gwneud trefniadau arbennig os oes ganddynt gyfrifoldebau gofal. Yr ydym wedi argymell fod ymddiriedolaethau'r GIG yn cryfhau eu gweithdrefnau asesu cyn llawdriniaethau ac yn ymdrechu i ehangu systemau bwcio i gymwys triniaethau cleifion preswyl a dydd. Yr ydym hefyd wedi argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n pennu targedau i bob cymuned iechyd i leihau nifer y llawdriniaethau sy'n cael eu canslo.

11. Yn ein hadroddiad, *Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru: Rheoleiddio rheoli gwastraff*, buom yn ystyried a yw dibyniaeth bresennol Cymru ar safleoedd tirlenwi i waredu'r rhan fwyaf o'n gwastraff yn gynaliadwy. Mae rheoliadau llymach a chostau gwaredu uwch yn cynyddu'r perygl o weithgareddau rheoli gwastraff anghyfreithlon sy'n anharddu'r amgylchedd, megis tipio anghyfreithlon. Yr ydym felly wedi gwneud nifer o argymhellion gyda'r nod o leihau faint o wastraff a gynhyrchir yn y lle cyntaf, a sicrhau bod gan Gymru'r cyfleusterau sydd eu hangen arni i waredu gwastraff.

---

[3] 'Caffael Meddyginiaethau Gofal Sylfaenol', Y Pwyllgor Archwilio, Awst 2003.

12. Mae'r cyhoedd yn naturiol yn amheus o ddulliau amgen i waredu gwastraff ac maent yn bryderus ynglŷn â'r effeithiau ar iechyd. Mae llawer o fusnesau hefyd heb fod yn gwbl ymwybodol o holl oblygiadau'r amrywiaeth eang o weithdrefnau sydd mewn grym sy'n effeithio ar waredu gwastraff. Gan fod dealltwriaeth pawb perthnasol yn allweddol i gyflawni'r gwelliannau amgylcheddol yr ydym i gyd am eu gweld yn deillio o arferion rheoli gwastraff gwell, yr ydym wedi gwneud argymhellion ar well addysg i'r cyhoedd ar opsiynau gwaredu gwastraff, hysbysu busnesau sy'n cynhyrchu a rheoli peryglus ac annog mwy o fusnesau i fod yn fwy ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran gwastraff.

13. Mae strategaeth gwasanaethau cyhoeddus diweddar Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Creu'r Cysylltiadau*, yn pwysleisio pwysigrwydd sicrhau bod y dinesydd yn ganolog i ddatblygiad gwasanaethau cyhoeddus effeithiol. O ystyried pwysigrwydd y thema hon yn ein gwaith, yr ydym yn croesawu'r pwyslais hwn.

***Annog defnydd doethach o adnoddau presennol***

14. Roedd tri o'n hadroddiadau y llynedd yn ystyried sut y dylai cyrff archwiliedig wneud gwell defnydd o'r adnoddau sylweddol sydd ganddynt:

- staff – *Rheoli Absenoldeb oherwydd salwch gan Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru* – roedd cyfanswm gwerth yr amser staff a gollwyd trwy absenoldeb oherwydd salwch dros £66 miliwn yn 2002-03, gyda £14 miliwn pellach yn cael ei wario ar staff wrth gefn;
- arteffactau – *Rheoli'r Casgliadau yn Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru* – mae'r Amgueddfa'n cadw tua 4.7 miliwn o eitemau i'w diogelu ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, a hefyd i ddibenion ymchwil, addysg a hamdden; a
- cyllid – *Cronfeydd Strwythurol yr Undeb Ewropeaidd: Hynt y gwaith o sicrhau'r manteision i Gymru* – mae oddeutu £1.5 biliwn o gyllid Ewropeaidd wedi'i ddyrannu i Gymru ar gyfer y rownd gyfredol o raglenni, sy'n dod i ben yn 2006.

15. Er bod y tri maes hyn yn amrywiol, mae rhai agweddau o'r ffordd y mae angen eu rheoli'n well yn drawiadol o debyg. Maent i gyd yn gofyn am wybodaeth reoli dda a gweithio chydlynus ag eraill. Gyda golwg ar yr olaf, unwaith eto yr ydym yn croesawu'r gydnabyddiaeth a roddir i bwysigrwydd gweithio'n effeithiol gyda sefydliadau eraill yng nghynllun *Creu'r Cysylltiadau* Llywodraeth y Cynulliad.

*Gwybodaeth reoli*

16. Mae'r tri adroddiad yn dangos ei bod yn anodd iawn rheoli'n effeithiol heb wybodaeth reoli o ansawdd da – sy'n ddibynadwy, cyfoes a pherthnasol. Yn achos ymddiriedolaethau'r GIG, gwelwyd at ei gilydd bod prinder data dibynadwy ar achosion a chostau absenoldeb oherwydd salwch, a bod diffyg data o'r fath yn cyfyngu ar yr hyn y gall ymddiriedolaethau ei wneud i gyfeirio adnoddau i'r meysydd a oedd yn achosi mwyaf o bryder, neu werthuso effeithiau unrhyw gamau a gymerwyd.

17. Mae maint casgliad yr Amgueddfa'n golygu y byddai'n fanteisiol cael system gyfrifiadurol i ddogfennu, diweddaru, adalw a chyrchu'r wybodaeth. Ar adeg ein hymchwiliad dim ond traen y casgliad a oedd wedi'i gadw fel cofnod cyfrifiadurol, er bod yr Amgueddfa'n bwydo tua 200,000 o gofnodion y flwyddyn ar gyfrifiadur. Yr ydym wedi argymell ei bod yn gosod targedau synhwyrol iddi'i hun, ac yn monitro eu cyflawniad, er mwyn gwella trefniadau i ddogfennu ei chasgliad.

18. Dangosodd ein hadroddiad ar y Cronfeydd Strwythurol yng Nghymru bod maint a graddfa'r rhaglenni sy'n cael eu rheoli'n golygu bod rhaid cael systemau TG i ddarparu'r wybodaeth angenrheidiol. Gwelwyd cynnydd da yn hyn o beth ers ein hadroddiad blaenorol ar y pwnc: er enghraifft, mae gwybodaeth ar gael yn awr ar hyd y broses arfarnu prosiectau. Yr oeddem, fodd bynnag, yn siomedig o ganfod y byddai'n rhaid aros, am amryw o resymau, tan rownd nesaf y rhaglenni yn 2007, am brosiect Merlin newydd y Cynulliad, y system integredig y gellir ei gweithio ar y we y buom yn pwyso amdano.

*Gweithio gydag eraill*

19. Yng nghyd-destun absenoldeb oherwydd salwch yn y GIG, mae gweithio gydag eraill yn berthnasol i ymddiriedolaethau sy'n meincnodi eu hunain yn erbyn eraill a, phan ganfyddir problemau a sialensiau cyffredin, bod modd cyfuno syniadau i roi sylw iddynt. Mae hefyd yn berthnasol i ddarpariaeth gwasanaeth iechyd galwedigaethol, a fyddai'n elwa ar weithio ar y cyd. Yr oeddem felly'n croesawu sefydlu grŵp lefel uchel sy'n cynnwys cynrychiolwyr o ymddiriedolaethau GIG i weithio i weithredu ein hargymhellion ni a rhai'r Archwilydd Cyffredinol. Edrychwn ymlaen at weld canlyniadau gwaith y grŵp.

20. Yn achos yr Amgueddfa, yn 2004, roedd dros 25,000 o'i gwrthrychau ar fenthyg ar draws Cymru a thu hwnt. Hoffai'r Amgueddfa weld y cynllun benthyca'n cael ei ymestyn, ond mae'n teimlo bod y broses o drefnu benthyciadau'n faich ar ei hadnoddau. Nodwyd gennym fod y "Rhaglen Bartneriaeth" yn ddefnyddiol yn hyn o beth ac argymhellwyd bod yr Amgueddfa'n parhau i edrych ar hyn a ffyrdd eraill o ymestyn y rhaglen fenthyca.

21. Mae gweithio mewn partneriaeth - rhwng y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol - yn allweddol i reoli'r rhaglenni Cronfeydd Strwythurol yng Nghymru. Yr ydym yn falch o weld bod cynnydd wedi ei wneud o safbwynt cyfraniad y sector preifat at y rhaglenni - ym Mawrth 2004, llwyddwyd i sicrhau £427 miliwn o arian cyfatebol o'r sector preifat. Ac mae WEFO wedi gweithredu i symleiddio hyd a chymhlethdod y strwythurau penderfynu a feirniadwyd gennym yn ein hadroddiad cyntaf ar y pwnc. Nodwyd gennym, fodd bynnag, bod angen gwneud mwy i wella effeithlonrwydd y system ar draws yr holl bartneriaid os ydym am osgoi'r problemau a wynebwyd wrth geisio cwrdd â'r targedau gwariant blynyddol yn 2003. Roedd hyn yn gofyn am ragolygon gwario mwy realistig gan noddwyr y prosiectau a hawliadau mwy amserol am ad-daliadau.

***Cefnogi prynu gwell***

22. Gall caffael da ryddhau adnoddau o fewn y bloc Cymreig cyfyngedig gan ei gyfeirio i feysydd eraill er mwyn gwella darpariaeth gwasanaethau. Mae gwelliannau mewn prynu felly'n arwain at fanteision eang i'r cyhoedd. Er hyn, mae caffael yn faes nad yw'n cael ei werthfawrogi'n llwyr bob amser.

23. Gan adeiladu ar ein hadroddiad blaenorol, *Caffael yn y Sector Addysg Uwch yng Nghymru*, mae ein hastudiaeth o gaffael yn y sector Addysg Uwch yng Nghymru wedi dangos yr angen am fwy o effeithlonrwydd yn y maes. Mae'n profi bod angen i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru weithio gyda sefydliadau addysg uwch i sicrhau arbedion a gwelliannau ymarferol eraill o safbwynt gwerth am arian.

24. O ran sefydliadau unigol, gwelsom wendidau penodol mewn systemau mesur perfformiad a phroffil caffael fel swyddogaeth mewn sefydliadau. Tynnwyd sylw gennym hefyd at y meysydd canlynol fel rhai y gellid eu datblygu ymhellach:

- manteisio ar arbenigedd caffael priodol;
- rheoli cyflenwyr a chontractwyr;
- datblygu polisïau caffael sy'n gydnaws â datblygu cynaliadwy;
- cyflwyno prosesu electronig.

25. Roedd ein hadroddiad yn nodi gwerth 'gwiriadau ffitrwydd iechyd' Tîm Menter Gaffael Cymru ar sefydliadau addysg uwch. Mae'r rhain yn rhan o raglen o archwiliadau ar swyddogaethau caffael ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru. Yn wir, mae ein hadroddiad ar Adroddiad Cyffredinol yr Archwilydd Cyffredinol yn 2004 yn pwysleisio'r angen i sicrhau bod gweithgareddau Tîm Menter Gaffael Cymru i ganfod arbedion posibl ar draws y sector cyhoeddus yn ei gyfanrwydd yn cael eu cefnogi. Nodwyd hefyd y bydd rhaid mynd ati i ledaenu'r gwersi a ddysgwyd o'u rhaglen ffitrwydd caffael er mwyn sicrhau'r budd mwyaf posibl. Yr ydym felly'n falch o glywed, ar ôl cwblhau'r rhaglen archwiliadau caffael, bod yr Archwilydd Cyffredinol yn bwriadu llunio cynnig ar gyfer astudiaeth ar destun cymhwysedd masnachol gweision cyhoeddus fel rhan o'i raglen waith am 2006-07.

26. Yn yr un modd, yr ydym yn falch bod papur polisi'r Llywodraeth *Creu'r Cysylltiadau,* yn awgrymu bwriad i gynyddu'r gwerth am arian a geir mewn caffael. Mae'r papur yn pennu targed o £600 miliwn o welliannau gwerth am arian ar draws cyrff sector cyhoeddus Cymru erbyn 2010. Gyda gwariant caffael cyhoeddus blynyddol yng Nghymru oddeutu £4 biliwn, y nod yw cyflawni £120 miliwn o'r gwelliannau hyn trwy gaffael doethach a thrwy wella a rhannu swyddogaethau erbyn 2008. Yr ydym yn awyddus i ategu ymdrechion o'r fath, ac rydym yn bwriadu edrych yn feirniadol ar berfformiad yn erbyn yr ymrwymiadau hyn er mwyn sicrhau cynnydd gwirioneddol.

***Rheolaeth ariannol dda***

27. Mae rheolaeth ariannol dda'n hanfodol os am reoli arian cyhoeddus mewn ffordd effeithiol ac effeithlon. Mae'r Pwyllgor yn falch bod yr Archwilydd Cyffredinol ar y pryd yn ei Adroddiad Cyffredinol ar gyfer 2004 (a oedd yn crynhoi canlyniadau ei waith archwilio ariannol yn y sector llywodraeth ganolog yng Nghymru) wedi datgan: "at ei gilydd...mae safonau rheolaeth ariannol...yn parhau'n uchel". Yr oeddem hefyd yn falch ei fod yn gallu dweud wrthym fod y sector " safon gystal â gweddill y Deyrnas Unedig ac, yn wir, mewn rhai ffyrdd roedd yn rhagori arno." Yn ein hadroddiad ni ar Adroddiad Cyffredinol yr Archwilydd Cyffredinol, cydnabûm ymdrechion caled swyddogion ar bob lefel i gyflawni hyn. Ond, wrth gwrs, mae'n rhaid dyfalbarhau i gynnal a gwella'r safonau uchel a osodwyd.

28. Er mwyn sicrhau rheolaeth ariannol gadarn mae'n rhaid i uwch reolwyr y tu allan i'r swyddogaethau ariannol dderbyn gwybodaeth ariannol berthnasol, a gallu ei deall a'i defnyddio. Un o'r pryderon penodol a godwyd oedd amheuaeth a oedd swyddogion yn meddu ar ddigon o arbenigedd i reoli eu cyllidebau. Yr ydym felly wedi argymell, ar ôl ystyried Adroddiad Cyffredinol yr Archwilydd Cyffredinol, bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cefnogi ei waith i gyflwyno gwelliannau pellach i'w gweithdrefnau ariannol a rheoli risg trwy gyflwyno trefniadau hyfforddi staff cynhwysfawr.

29. O ran defnydd da o wybodaeth, yr oedd yn bryder clywed nad oedd Llywodraeth Cynulliad Cymru'n manteisio i'r eithaf ar botensial ei system ariannol gyfrifiadurol. Yn fwyaf arbennig, nid oedd y Llywodraeth yn defnyddio gwybodaeth yn seiliedig ar adnoddau, yn hytrach nag ar arian, yn ei phrosesau rheoli trwy gydol y flwyddyn. Mae gwybodaeth o'r fath yn creu darlun mwy ystyrlon o'r defnydd o adnoddau a fwriadwyd a'r hyn a ddefnyddiwyd mewn gwirionedd. Er ein bod yn cydnabod problem benodol wrth olrhain gwariant grantiau, a bod swyddogion yn rhoi sylw i hyn, yr oeddem o'r farn ei bod yn annerbyniol bod y Llywodraeth yn parhau i ddefnyddio gwybodaeth a oedd yn seiliedig ar arian yn bennaf i reoli'i gweithrediadau er bod gwybodaeth yn seiliedig ar adnoddau ar gael.

30. Yn yr un modd, yr oeddem yn pryderu bod angen i uwch reolwyr rhai cyrff archwiliedig wneud mwy i sicrhau bod camau y cytunwyd arnynt i ymateb i argymhellion archwiliadau yn cael eu mabwysiadu mewn modd amserol. Fel rhan o waith archwilio ariannol, mae staff yr Archwilydd Cyffredinol yn gwneud argymhellion ac yn cynnig cyngor ar welliannau y gellid eu gwneud i weithrediadau'r cyrff archwiliedig, gyda materion pwysicach yn cael eu crybwyll ar ddiwedd pob archwiliad mewn Llythyr Rheoli blynyddol. Yr oeddem yn siomedig o ddeall ym Mehefin 2004 bod tri ar ddeg o gyrff archwiliedig yn parhau heb weithredu ar argymhellion a oedd yn deillio o'u cyfrifon am 2001-02. Er ein bod yn nodi bod yr Ysgrifennydd Parhaol wedi mynd ar ôl y materion hyn gyda'r Swyddogion Cyfrifo, yr oeddem yn parhau'n anfodlon iawn gyda'r sefyllfa'n gyffredinol. Yr ydym wedi argymell felly, ymhlith pethau eraill, y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ddatgan yn eglur wrth Gadeiryddion Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad y dylid edrych ar yr argymhellion y cytunwyd arnynt fel mater o berfformiad ac yn rhywbeth y dylai eu timau o uwch reolwyr weithredu arnynt ar fyrder.

31. Mae effaith rheolaeth ariannol ar reoli adnoddau yn mynd y tu hwnt i wneud penderfyniadau busnes. Mae'n effeithio ar faterion 'meddalach' hefyd megis morâl. Wrth edrych ar gyllid GIG Cymru, holwyd Cyfarwyddwr GIG Cymru ynghylch effaith system a oedd yn ymddangos ei bod yn gwobrwyo methiant yn dilyn nifer o flynyddoedd o ddiffyg ariannol ar forâl. Nodwyd bod ymdrechion yn cael eu gwneud i gywiro diwylliant y diffyg sydd wedi bodoli ers cryn amser trwy gynlluniau adfer caled ond cyraeddadwy a oedd yn gwobrwyo perfformiad da. Ond er mwyn sicrhau bod hyn yn fwy nag ymarferiad damcaniaethol yn unig, argymhellwyd bod y cynlluniau hynny'n cael eu monitro gan Adran Iechyd y Cynulliad er mwyn sicrhau bod modd cymryd camau cywirol ar fyrder.

## Gwaith arall y Pwyllgor

32. Yn ogystal â'r prif waith archwilio, mae'r Pwyllgor hefyd yn ystyried amcangyfrif blynyddol yr Archwilydd Cyffredinol o incwm a threuliau, a'i gynigion ar gyfer cynnal archwiliadau i ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn y sector llywodraeth ganolog Cymreig, ei raglen o waith gwerth am arian. Mae'r Pwyllgor hefyd wedi cefnogi sefydlu Swyddfa Archwilio Cymru ac mae wedi chwarae rhan flaenllaw ym mhenodiad yr Archwilydd Cyffredinol Cymru newydd. Mae'r holl waith hwn yn cyfrannu at gynnal a gwella safonau cadarn i archwilio cronfeydd cyhoeddus.

### *Rhaglen amcangyfrif Archwilydd Cyffredinol Cymru o incwm a threuliau a gwerth am arian*

33. Wrth gyflawni ei gyfrifoldebau o dan Reol Sefydlog 12.2(i), yn ei gyfarfod ym Medi 2004 bu'r Pwyllgor yn ystyried amcangyfrif yr Archwilydd Cyffredinol o incwm a threuliau am y flwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2006. Wrth ystyried yr amcangyfrif, roedd yn ofynnol i'r Pwyllgor, am y tro cyntaf, roi ystyriaeth i fodolaeth Swyddfa Archwilio Cymru[4] a'r ansicrwydd sydd ynghlwm ag asesu incwm a threuliau tebygol y corff unedig. Gyda hyn mewn golwg, roedd yr amcangyfrif yn fwy cymhleth nag yn y blynyddoedd blaenorol. Yn dilyn trafodaeth, cymeradwywyd yr amcangyfrif gan y Pwyllgor, a oedd yn cynnwys cais am adnoddau o £4.2 miliwn ar gyfer 2005-06.

34. Ym Medi 2004, rhoddwyd cyfle i'r Pwyllgor gynnig sylwadau ar raglen ddrafft o archwiliadau gwerth am arian 2005-06 yr Archwilydd Cyffredinol. Cyflwynwyd y rhaglen derfynol i'r Pwyllgor gan Jeremy Colman[5], a oedd newydd ei benodi fel Archwilydd Cyffredinol Cymru yn ei gyfarfod yn Ebrill 2005.

### *Swyddfa Archwilio Cymru*

[4] Sefydlwyd Swyddfa Archwilio Cymru ar 1 Ebrill 2005 ac mae'n cyfuno swyddogaethau Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru a'r Comisiwn Archwilio yng Nghymru. Mae hwn yn gorff archwilio ac arolygu unedig i'r sector cyhoeddus yng Nghymru.
[5] Gweler paragraffau 35 a 36.

35. Yn ystod y flwyddyn adrodd, mae'r Pwyllgor wedi bod yn gysylltiedig â sefydlu Swyddfa Archwilio Cymru [6]. Ym Medi 2004, bu'r Pwyllgor yn ystyried Cod Ymarfer Archwilio ac Arolygu Cymru 2005, sy'n rhoi fframwaith i ddull gweithredu archwilwyr ac arolygwyr yn eu gwaith a'u gweithgareddau o ddydd i ddydd. Yn dilyn cyfnod o ymgynghori cyhoeddus, daethpwyd â'r Cod yn ôl gerbron y Pwyllgor yn Ebrill 2005 cyn ei gyflwyno gerbron y Cyfarfod Llawn.

### *Penodi Archwilydd Cyffredinol newydd i Gymru*

36. Daeth tymor penodiad Syr John Bourn[7] i ben ar 31 Mawrth 2005. Mae Swydd Archwilydd Cyffredinol Cymru'n benodiad statudol a wneir gan Ei Mawrhydi'r Frenhines o dan *Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998*.

37. Yn unol â'r protocol y cytunwyd arno gyda Swyddfa Cymru a Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad, roedd yn ofynnol i Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a thri o'i aelodau eistedd ar y panel dethol. Ym Medi 2004 cynhaliodd y Pwyllgor gyfarfod ychwanegol i gytuno ar aelodaeth y panel[8].
Yn dilyn y broses ddethol, cynigiwyd y swydd i Jeremy Colman. Derbyniodd. Mr Colman y cynnig a dechreuodd ar ei dymor yn y swydd ar 1 Ebrill 2005.

## Sialensiau'r flwyddyn nesaf

### *Bod yn fwy agored a gwella mynediad i'r cyhoedd*

38. Cynhaliwyd cyfarfod mis Mawrth 2005, y trydydd o dri chyfarfod i glywed tystiolaeth yn deillio o adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol i Amseroedd Aros y GIG yng Nghymru', yn Abertawe ac fe'i mynychwyd gan nifer dda o'r cyhoedd. Bwriedir i'r Pwyllgor barhau i godi ymwybyddiaeth a gwella mynediad i'w waith trwy gyfarfod mewn lleoliadau heblaw Caerdydd pan fo hynny'n ymarferol. Yn fwyaf arbennig, bydd y Pwyllgor yn ymdrechu i gynnal cyfarfodydd allanol pan fo'r materion a drafodir o ddiddordeb rhanbarthol neu leol.

### *Datblygu cysylltiadau gyda phwyllgorau pwnc*

39. Yn ystod trafodaeth y Pwyllgor ar ei gyflawniadau ers datganoli[9], mae wedi cydnabod rôl bosibl y pwyllgorau pwnc i fonitro argymhellion archwilio i Lywodraeth Cynulliad Cymru a Chyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad. Bydd cylch gwaith a swyddogaethau statudol newydd Swyddfa Archwilio Cymru, a fydd yn caniatáu astudiaethau trawsbynciol ac archwiliadau traws-sector, yn gyfle i'r Pwyllgor weithio gyda phwyllgorau pwnc. Gyda hyn mewn golwg, bydd y Pwyllgor yn ymdrechu i ddatblygu cysylltiadau gyda phwyllgorau pwnc i hwyluso'r gwaith hwn.

---

[6] Gweler paragraff 32.
[7] Archwilydd Cyffredinol Cymru 1999 - 31 Mawrth 2005.
[8] Janet Davies AC (Cadeirydd), Mick Bates AC, Alun Cairns AC a Christine Gwyther AC.
[9] Gweler paragraff 6

**ATODIAD 1**

## AELODAETH, ROLAU A CHYFRIFOLDEBAU

### Aelodaeth

1.1 Ein haelodau ar hyn o bryd yw Janet Davies (Cadeirydd), Leighton Andrews, Mick Bates, Alun Cairns, Jocelyn Davies, Mark Isherwood, Irene James[10], Denise Idris-Jones, Carl Sargeant a Catherine Thomas[11].

### Rôl a Chyfrifoldebau'r Pwyllgor Archwilio

1.2 Rôl y Pwyllgor Archwilio yw sicrhau bod gwariant y Cynulliad yn cael ei archwilio mewn ffordd briodol a thrylwyr. Prif ddiben y Pwyllgor yw sicrhau bod y Cynulliad a chyrff cyhoeddus eraill yn gweithredu'n unol â'r safonau uchaf o ran rheoli eu materion ariannol. Nodir cyfrifoldebau'r Pwyllgor Archwilio yn fanwl yn Adran 102 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 ac yn Rheol Sefydlog 12. Yn fras, cyfrifoldeb y Pwyllgor Archwilio yw craffu ar adroddiadau Archwilydd Cyffredinol Cymru (ACC) ar gyfrifon y Cynulliad a chyfrifon cyrff cyhoeddus eraill, ac ystyried adroddiadau gan yr Archwilydd Cyffredinol ar archwiliadau o ba mor ddarbodus, effeithlon ac effeithiol y mae'r Cynulliad a chyrff cyhoeddus cysylltiedig wrth ddefnyddio'u hadnoddau i gyflawni'u swyddogaethau (hynny yw, archwiliadau gwerth am arian).

1.3 Mae'r Pwyllgor yn gweithredu mewn ffordd amhleidiol yn wleidyddol, heb gwestiynu gwerth amcanion polisi, ond yn canolbwyntio a yw'r cyrff dan sylw wedi rhoi ystyriaeth briodol i reoleidd-dra, uniondeb a gwerth am arian wrth roi eu polisïau a'u rhaglenni ar waith.

1.4 Mae cyfrifoldeb ar y Pwyllgor hefyd i ystyried yn flynyddol amcangyfrif yr Archwilydd Cyffredinol o'i incwm a'i dreuliau am y flwyddyn ddilynol. Bydd yn rhoi'r amcangyfrif hwnnw gerbron y Cynulliad. Yr un pryd, bydd y Pwyllgor yn ystyried hefyd raglen archwiliadau gwerth am arian ACC ar gyfer y flwyddyn nesaf. Mae'n ofynnol i ACC gymryd barn y Pwyllgor i ystyriaeth wrth lunio'i raglen.

### *Archwilydd Cyffredinol Cymru*

1.5 Mae adran 102 o Ddeddf 1998 yn awdurdodi'r Pwyllgor Archwilio i glywed tystiolaeth a gwneud argymhellion i'r Cynulliad ar sail adroddiadau a gyflwynir gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Golyga hyn fod perthynas waith glòs rhwng y Pwyllgor â'r Archwilydd Cyffredinol. Ei waith ef yw man cychwyn rhaglen waith y Pwyllgor ei hun ac mae'n helpu'r Cynulliad a chyrff cyhoeddus cysylltiedig yng Nghymru i sicrhau bod eu gweithgareddau yn rhoi gwerth am arian ac i sicrhau bod eu materion ariannol yn cael eu rheoli yn briodol a rheolaidd.

---

[10] Ymunodd Irene James â'r Pwyllgor ar 25 Ionawr 2005 yn lle Val Lloyd.

[11] Ymunodd Catherine Thomas â'r Pwyllgor ar 25 Ionawr 2005 yn lle Christine Gwyther.

**Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol a Swyddfa Archwilio Cymru**

1.6 Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yw'r prif gorff archwilio yn y sector cyhoeddus sy'n archwilio cyfrifon adrannau Llywodraeth y DU a nifer o gyrff cyhoeddus eraill. Gall hefyd gynnal astudiaethau gwerth am arian o'r cyrff hynny. Mae'n darparu cyngor, gwybodaeth a sicrwydd annibynnol i'r Senedd ar y modd y defnyddir cyllid cyhoeddus. Hyd at 31 Mawrth 2005, yr oedd Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru yn gwneud y gwaith archwilio ariannol a'r archwiliadau gwerth am arian ar ran ACC ac yn darparu cymorth gweinyddol iddo. Yr oedd staff y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn cydweithio'n glòs â'r Pwyllgor Archwilio, gan roi cymorth technegol ar gyfer ei sesiynau clywed tystiolaeth.

1.7 Ar 16 Medi 2004, derbyniodd Fesur Archwilio Cyhoeddus (Cymru) Gydsyniad Brenhinol. Yr oedd y Ddeddf ddilynol yn trosglwyddo staff Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru, ynghyd â staff y Comisiwn Archwilio yng Nghymru, i'w cyflogi gan ACC er mwyn creu Swyddfa Archwilio Cymru. Sefydlwyd Swyddfa Archwilio Cymru ar 1 Ebrill 2005, ac mae'n cyfuno swyddogaethau'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol a'r Comisiwn Archwilio yng Nghymru. Mae'n gorff unedig sy'n archwilio ac yn arolygu'r sector cyhoeddus yng Nghymru, a fydd yn cyflwyno system gydlynol i archwilio ac arolygu ystod eang o wasanaethau cyhoeddus.

1.8 Bydd y Pwyllgor Archwilio'n parhau i dderbyn adroddiadau gan ACC ar holl rannau'r sector cyhoeddus yng Nghymru ac eithrio llywodraeth leol.

1.9 Ar ôl ystyried adroddiad gan ACC, bydd y Pwyllgor Archwilio, fel rheol, yn clywed tystiolaeth gan Swyddog Cyfrifo (hynny yw, yr uwch swyddog â chyfrifoldeb personol am y gwariant perthnasol) y corff dan sylw i ystyried materion sydd wedi'u tanlinellu yn yr adroddiad. Bydd y Pwyllgor Archwilio wedyn yn llunio ei adroddiadau ei hun ar sail y canfyddiadau.

1.10 Caiff yr adroddiadau a lunnir gan y Pwyllgor Archwilio eu gosod gerbron y Cynulliad, a rhaid i Lywodraeth Cynulliad Cymru ymateb i'r argymhellion cyn pen 30 diwrnod gwaith.

**Atodiad 2**

**Adroddiadau'r Pwyllgor Archwilio a gyhoeddwyd yn 2004-05**

| **Teitl a chyfeirnod yr adroddiad** | **Dyddiad clywed tystiolaeth** | **Tystion** | **Dyddiad cyhoeddi'r adroddiad** |
|---|---|---|---|
| Rheoli Absenoldeb oherwydd Salwch gan Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru<br>AC(2) 05-04 | 12 Chwefror a 11 Mawrth 2004 | Ann Lloyd, Pennaeth yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol<br>Allison Williams, Prif Weithredwr, Ymddiriedolaeth GIG Ceredigion a Chanolbarth Cymru<br>Jo Davies, Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol, Ymddiriedolaeth GIG Ceredigion a Chanolbarth Cymru<br>Martin Turner, Prif Weithredwr, Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Gwent<br>Tracy Myhill, Cyfarwyddwr Personél, Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Gwent | 5 Awst 2004 |
| Rheoli'r Casgliadau yn Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru<br>AC(2) 06-04 | 6 Mai 2004 | Michael Houlihan, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru<br>Eurwyn Wiliam, Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol, Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru | 17 Awst 2004 |
| Cyllidau GIG Cymru 2004<br>AC(2) 07-04 | 17 Mehefin 2004 | Ann Lloyd, Pennaeth yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol<br>Christine Daws, Cyfarwyddwr Adnoddau, yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Cynulliad Cenedlaethol Cymru | 18 Hydref 2004 |

| **Teitl a chyfeirnod yr adroddiad** | **Dyddiad clywed tystiolaeth** | **Tystion** | **Dyddiad cyhoeddi'r adroddiad** |
|---|---|---|---|
| Adroddiad Cyffredinol Archwilydd Cyffredinol Cymru 2004<br>AC(2) 08-04 | 17 Mehefin 2004 | Syr Jon Shortridge, Ysgrifennydd Parhaol, Cynulliad Cenedlaethol Cymru<br>David Richards, Prif Swyddog Cyllid, Cynulliad Cenedlaethol Cymru<br>Laurie Pavelin, Pennaeth yr Is-adran Atebolrwydd Ariannol, Cynulliad Cenedlaethol Cymru | 14 Tachwedd 2004 |
| Cronfeydd Strwythurol yr Undeb Ewropeaidd: Hynt y gwaith o Sicrhau'r Manteision i Gymru<br>AC(2) 09-04 | 15 Gorffennaf 2004 | Syr Jon Shortridge, Ysgrifennydd Parhaol, Cynulliad Cenedlaethol Cymru<br>David Richards, Prif Swyddog Cyllid, Cynulliad Cenedlaethol Cymru<br>Dr Emyr Roberts, Prif Weithredwr, Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru<br>Helen Usher, Pennaeth yr Is-adran Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol, Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru | 30 Tachwedd 2004 |
| Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru: Rheoleiddio Rheoli Gwastraff<br>AC(2) 01-05 | | Dr Helen Phillips, Cyfarwyddwr, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru<br>Liz Parkes, Pennaeth Rheoleiddio Gwastraff, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru<br>Nigel Reader, Cyfarwyddwr Cyllid, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru<br>Dr June Milligan, Pennaeth Is-adran yr Amgylchedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru<br>Robert Williams, Pennaeth y Gangen Polisi Gwastraff, Cynulliad Cenedlaethol Cymru | 23 Chwefror 2005 |

| **Teitl a chyfeirnod yr adroddiad** | **Dyddiad clywed tystiolaeth** | **Tystion** | **Dyddiad cyhoeddi'r adroddiad** |
|---|---|---|---|
| Caffael yn y Sector Addysg Uwch yng Nghymru<br>AC(2) 02-05 | 2 Rhagfyr 2004 | Yr Athro Philip Gummett, Prif Weithredwr, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru<br>Richard Hirst, Cyfarwyddwr Cyllid, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru<br>Paul Skellon, Pennaeth Tîm Menter Gaffael Cymru, Cynulliad Cenedlaethol Cymru | 11 Ebrill 2005 |
| Amseroedd Aros y GIG yng Nghymru<br>AC(2) 03-05 | 3 Chwefror, 10 Chwefror a 3 Mawrth 2005 | Ann Lloyd, Pennaeth yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol<br>Stuart Marples, Cyfarwyddwr Rhanbarthol, Canolbarth a Gorllewin Cymru, yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Cynulliad Cenedlaethol Cymru<br>John Hill-Tout, Cyfarwyddwr, Cyfarwyddiaeth Perfformiad a Gweithgarwch, yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Cynulliad Cenedlaethol Cymru<br>Geoff Lang, Prif Weithredwr, Bwrdd Iechyd Lleol Wrecsam<br>Jane Perrin, Prif Weithredwr, Ymddiriedolaeth GIG Abertawe<br>Bernadine Rees, Prif Weithredwr, Bwrdd Iechyd Lleol Sir Benfro<br>Hugh Ross, Prif Weithredwr, Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro<br>Paul Williams Prif Weithredwr, Ymddiriedolaeth GIG Bro Morgannwg | 12 Mai 2005 |

**Atodiad 3**

**Argymhellion adroddiadau’r Pwyllgor Archwilio a gyhoeddwyd rhwng Mehefin 2004 a Mai 2005**

**Rheoli Absenoldeb oherwydd Salwch gan Ymddiriedolaethau’r GIG yng Nghymru**

Argymhellwn:

i) wrth adolygu a monitro eu systemau ar gyfer cofnodi absenoldeb oherwydd salwch, y dylai ymddiriedolaethau’r GIG sicrhau bod gweithdrefnau yn cael eu defnyddio’n gyson a chyda’r un trylwyredd ymhlith pob grwp o’r staff;

ii) yn sgil cyflwyno diffiniad cyffredin er mwyn mesur absenoldeb oherwydd salwch, y dylai Adran GIG Cymru y Cynulliad roi i ni’r wybodaeth ddiweddaraf am lefelau absenoldeb oherwydd salwch ar draws y GIG yng Nghymru ddiwedd blwyddyn ariannol 2004-05;

iii) y dylai Adran GIG Cymru’r Cynulliad sicrhau bod y gwersi a ddysgwyd gan sefydliadau sydd wedi llwyddo i ostwng eu lefelau absenoldeb oherwydd salwch, megis Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Gwent, yn cael eu rhannu ar draws y GIG yng Nghymru;

iv) wrth geisio mynd i’r afael â’u lefelau absenoldeb oherwydd salwch, y dylai ymddiriedolaethau’r GIG roi sylw arbennig i staff yn y rheng flaen megis nyrsys a bydwragedd, oherwydd gostyngiadau yn y lefelau absenoldeb oherwydd salwch ymhlith y grwpiau hyn sy’n debygol o arwain at y manteision gweithredol ac ariannol mwyaf;

v) wrth osod targedau diwygiedig ar gyfer ymddiriedolaethau’r GIG a monitro’n fwy gofalus y tueddiadau mewn absenoldeb oherwydd salwch yn y dyfodol, y dylai Adran GIG y Cynulliad gyhoeddi ffigurau ar y lefelau absenoldeb oherwydd salwch fel y gwna wrth gyhoeddi gwybodaeth allweddol arall am y gweithlu megis niferoedd staff a swyddi gwag. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod rheoli absenoldeb salwch yn cynnal proffil uchel ar draws GIG Cymru;

vi) y dylai Adran GIG y Cynulliad roi blaenoriaeth arbennig i waith y grwp lefel uchel hwn a gafodd y dasg o roi ar waith yr argymhellion yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ac yna ein diweddaru ymhen y flwyddyn ar yr hyn a gyflawnwyd;

vii) lle bo’n debygol o fod yn gost effeithiol i wneud hynny, y dylai ymddiriedolaethau’r GIG geisio adennill costau absenoldeb oherwydd salwch o’r trydydd partïon sy’n atebol;

viii) y dylai arferion da ar ddefnyddio nyrsys banc mewnol gael eu hymestyn ar draws y GIG yng Nghymru gyda’r bwriad o leihau yn sylweddol y defnydd sy’n cael ei wneud o nyrsys asiantaeth ac felly lleihau’r costau;

ix) y dylai'r GIG yng Nghymru roi pwyslais arbennig ar yr angen i ddarganfod yn drylwyr i ba raddau y mae salwch yn gysylltiedig â gwaith yn bod a'r achosion am hynny er mwyn galluogi cyflogwyr i dargedu adnoddau yn effeithiol ac yn gymesur gyda'r nod o fynd i'r afael â'r broblem hon.

x) y dylai Adran GIG Cymru'r Cynulliad geisio cael eglurhad ar frys ar y categorïau i'w defnyddio i gofnodi achosion o absenoldeb oherwydd salwch o fewn y System Cofnodi Staff Electronig (ESR) er mwyn galluogi ymddiriedolaethau'r GIG i hyfforddi rheolwyr i ddefnyddio'r categorïau hyn cyn i'r system gael ei chyflwyno;

xi) wrth ddatblygu canllawiau ar reoli absenoldeb oherwydd salwch, y dylai Adran GIG Cymru'r Cynulliad sefydlu safonau gofynnol ar gyfer hyfforddiant ar reoli absenoldeb oherwydd salwch;

xii) wrth geisio gwella gwasanaethau iechyd galwedigaethol ar draws y GIG yng Nghymru y dylai Adran GIG Cymru'r Cynulliad ystyried a ellid darparu elfennau arbennig o'r ddarpariaeth hon, megis cynghori, yn well ar lefel Cymru gyfan;

xiii) y dylai Adran GIG Cymru'r Cynulliad sefydlu ei chanllawiau a'i safonau ei hun ar gyfer darparu gwasanaethau iechyd galwedigaethol ar draws GIG Cymru a monitro'n rhagweithiol yr hyn y mae'r ymddiriedolaethau yn ei wneud i fodloni'r safonau hynny;

xiv) y dylai'r posibilrwydd o aruno mewn perthynas â'r ddarpariaeth iechyd galwedigaethol gael ei archwilio rhwng y GIG a'r awdurdodau lleol ledled Cymru er mwyn gwasanaethu'n well anghenion gweithwyr cyflogedig yn y ddau sector.

**Rheoli'r Casgliadau yn Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru**

Argymhellwn y dylai'r Amgueddfa:

i) mynd ati i ddatblygu 'gweledigaeth' ar fyrder er mwyn gallu diffinio ac egluro ei chyd-destun yn y dyfodol a'i chyfeiriad cyffredinol yn ddi-oed. Dylai bennu targedau amser y gellir eu mesur ar gyfer gwireddu'r 'weledigaeth' a dylid rhoi ystyriaeth i holl argymhellion yr adroddiad hwn a nodi'n glir sut y bwriedir cyflawni'r gwahanol welliannau;

ii) pennu targedau realistig, cyraeddadwy, amserol a mesuradwy ar gyfer gwella'r ffordd y dogfennir ei chasgliadau ac y dylai fonitro hynny'n ofalus;

iii) estyn ar unwaith ei hap-wiriadau, sy'n profi cyflwr a lleoliad yr eitemau yn ei chasgliadau, a chynnwys yr eitemau hynny a gofnodwyd â llaw yn unig. Dylai hefyd adolygu lefel yr adnoddau a neilltuir ar gyfer gwirio er mwyn cyflwyno trefniadau gwirio systematig;

iv) llunio cynllun gweithredu ynghyd ag amserlen a chostau er mwyn mynd i'r afael â'r problemau storio y tu hwnt i'r 15-20 mlynedd y bydd y cyfleusterau storio gwell sydd yn yr arfaeth yn addas ar eu cyfer;

v) cwblhau ei hasesiad o'r ffordd orau o ddefnyddio'r arian a glustnodwyd gan y Cynulliad, a hynny ar fyrder, er mwyn denu arian ychwanegol o'r tu allan, a gwella cyfleusterau storio'r casgliadau;

vi) cymryd y camau angenrheidiol i sicrhau bod safonau storio'n foddhaol ac na pheryglir iechyd a diogelwch y staff a'r ymwelwyr;

vii) datblygu cynlluniau wrth gefn i fynd i'r afael â'r gwaith cadwraeth a fyddai'n cronni pe na bai prosiect Nantgarw'n mynd rhagddo'n gwbl lwyddiannus. Dylai hefyd fwrw ati ar fyrder â'i harolwg o gyflwr yr eitemau yn ei chasgliadau er mwyn sicrhau bod ymdrechion ei swyddogion cadwraeth yn cael eu defnyddio yn y ffordd orau;

viii) cynnal asesiad trylwyr iawn wrth gaffael eitemau a ac y dylai fonitro twf y casgliadau er mwyn gallu cynllunio at ei hanghenion storio a gwarchod yn y dyfodol;

ix) gofyn barn yr ymwelwyr yn systematig ynghylch y ffordd orau o arddangos eitemau er mwyn gwella'r profiad i ymwelwyr;

x) parhau i ystyried ffyrdd o estyn y rhaglen fenthyciadau, gan gynnwys estyn y Rhaglen Bartneriaeth er mwyn gwella mynediad i gasgliadau ledled Cymru;

xi) gwerthuso'r ffordd y mae'n defnyddio'i chyllideb farchnata er mwyn sicrhau y ceir y gwerth gorau am arian;

xii) datblygu a gweithredu cynllun clir ar gyfer creu incwm sy'n nodi'r meysydd y gellid eu datblygu a'r camau y mae angen eu cymryd er mwyn hybu'r cyfleoedd hynny i'r eithaf;

xiii) monitro nifer yr ymwelwyr â'r Amgueddfa Werin er mwyn sicrhau na fydd codi tâl am barcio'n effeithio ar lwyddiant y cynllun mynediad am ddim.

**Cyllidau GIG Cymru 2004**

**Am sefyllfa ariannol a rheolaeth GIG Cymru**

***Canlyniadau ariannol***

i) Rydym yn nodi ac yn cymeradwyo ymdrechion Adran GIG Cymru trwy gynlluniau ymadfer trylwyr a chyraeddadwy a thrwy wobrwyo perfformiad da i wyrdroi'r 'diwylliant diffyg' sydd wedi ennill ei blwyf. Rydym yn argymell yn gryf bod blaenoriaeth yn cael ei rhoi i gytuno ar yr holl gynlluniau ymadfer a bod Adran GIG Cymru yn cadw golwg gyson ar y perfformiad sy'n deillio o'r cynlluniau ymadfer

hyn fel y gellid cymryd camau unioni os a phan welir bod angen. Mae hyn yn hanfodol er lles iechyd ariannol GIG Cymru.

***Sefyllfa ariannol***

ii) Rydym yn nodi bod gan Ymddiriedolaeth GIG Sir Gaerfyrddin gynllun ymadfer y cytunwyd arno a'i bod yn mynd rhagddi i'w roi ar waith. Rydym yn disgwyl y bydd Adran GIG Cymru yn monitro'n ofalus iawn berfformiad yr ymddiriedolaeth hon ac ymddiriedolaethau eraill gyda'u cynlluniau ymadfer ar sail y targedau y gwnaethant gytuno arnynt. Bydd hynny'n golygu y bydd gweithredu buan yn bosib os gwelir nad ydynt mewn unrhyw ffordd yn bodloni disgwyliadau ac ymrwymiadau.

***Perfformiad wrth dalu***

iii) Rydym yn nodi gwelliant cyffredinol o ran talu anfonebau'n brydlon ond rydym yn dal yn poeni am yr amrywiaethau mawr rhwng cyrff unigol y GIG. Rydym yn pwysleisio bod angen i holl gyrff y GIG gyrraedd y nod o dalu 95 y cant o'r biliau diddadl yn ôl eu nifer cyn pen 30 niwrnod. Deallwn y bydd hyn yn darged ariannol i'r holl gyrff yn 2003-04. Dylai hyn helpu i ddiogelu cyflenwyr bach a chanolig rhag dioddef anfantais. Rydym yn disgwyl i Adran GIG Cymru gadw golwg fanwl ar hyn ac i gymryd camau priodol a buan yn erbyn cyrff sy'n methu â chwrdd â'u targedau.

**Am Ailstrwythuro GIG Cymru**

iv) Byddwn yn disgwyl â diddordeb am ganlyniadau cyflwyno'r cardiau sgorio cytbwys a gofynnwn am gael ein hysbysu am y canlyniadau, y casgliadau a'r camau gweithredu y bydd arolwg Gorffennaf 2004 yn esgor arnynt. Bwriadwn ddod yn ôl at y pwnc pwysig hwn yn y dyfodol. Rydym yn disgwyl y bydd Adran GIG Cymru am barhau i dracio costau rhedeg y strwythur newydd a chostau pontio'r ad-drefnu er mwyn sicrhau y cedwir at y targedau a bennwyd gan y Gweinidog. Rydym yn croesawu'r ymateb positif i'r pynciau a'r argymhellion a godwyd yn adroddiad Wanless a byddwn yn sicrhau bod yr Adran yn sicrhau bod cynlluniau gweithredu lleol Wanless yn ddigon cadarn a chyraeddadwy fel bod y newidiadau a'r gwelliannau angenrheidiol er lles pobl Cymru yn cael eu gwneud.

**Am Sialensau GIG Cymru**

***Llywodraethu Corfforaethol***

v) Rydym yn croesawu'r ymdrechion i gydymffurfio â'r safonau craidd yn 2003-04. Er ein bod yn siomedig bod rhai wedi methu, nodwn yr aed i'r afael â'r rhain ac anogwn Adran GIG Cymru i sicrhau bod cydymffurfio'n parhau'n flaenoriaeth uchel yn 2004-05.

***Cronfa Risg Cymru***

vi) Rydym yn falch bod hen ddiffygion Cronfa Risg Cymru yn cael sylw. Rydym yn disgwyl y bydd Adran GIG Cymru yn sicrhau bod cyrff y GIG yn parhau i gymryd camau i leihau'r achosion o esgeuluster ac anaf personol y bydd yn rhaid talu iawndal arnynt ac yn annog yr Adran i barhau i ymchwilio i ffyrdd newydd o ddatrys achosion yn gyflym ac yn deg.

***Twyll yn y GIG***

vii) Rydym yn croesawu'r gwaith sy'n cael ei wneud gan gyrff y GIG yng Nghymru i gynyddu'u hymwybyddiaeth o dwyll ac maent yn falch i nodi fod amcangyfrif Gwasanaeth Atal Twyll y GIG o lefel y twyll fferyllol yn parhau i ostwng. Rydym yn annog Adran GIG Cymru i barhau i weithio gyda'r cyrff atal twyll yng Nghymru i ostwng ymhellach lefel y twyll ym mhob agwedd ar waith y GIG.

***Costau nyrsys asiantaeth***

viii) Rydym yn dal yn ofidus bod costau nyrsys asiantaeth yn parhau i dyfu ac effaith bosibl gorddibynnu ar staff dros-dro ar ansawdd y gofal i gleifion. Rydym yn pwyso ar Adran GIG Cymru a chyrff y GIG i gadw golwg fanwl ar y costau hyn ac i gymryd camau pellach i'w gostwng. Mae angen i'r GIG yng Nghymru recriwtio a chadw staff nyrsio o ansawdd da ac i lunio trefniadau cyflogi fyddai'n rhoi i'r staff yr hyblygrwydd y maent yn chwilio amdano.

**Adroddiad Cyffredinol Archwilydd Cyffredinol Cymru 2004**

Argymhellwn:

O ran sicrhau gwelliannau pellach mewn safonau rheolaeth ariannol
bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymdrechu i wneud cynnydd cynnar wrth nodi a chyflwyno gwelliannau pellach yn ei weithdrefnau ariannol a rheoli risg, gyda chefnogaeth trefniadau cynhwysfawr i hyfforddi staff a phrosesau ar gyfer lledaenu arferion da;

y dylai lywodraeth Cynulliad Cymru sicrhau ei bod yn gwneud defnydd llawn o’r galluoedd sydd ar gael o fewn ei system ariannol gyfrifiadurol newydd, gan ddefnyddio gwybodaeth ar sail adnoddau o fewn ei phrosesau rheolaeth ariannol yn ystod y flwyddyn a hefyd i gefnogi paratoi ei chyfrifon blynyddol. Dylai hyn gynnwys darparu hyfforddiant priodol i uwch reolwyr a staff eraill y tu allan i’r swyddogaeth gyllid lle bynnag y bo angen. Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd dynnu ar yr arferion gorau sy’n dod i’r amlwg mewn trefniadau rheolaeth ariannol o fannau eraill o fewn sector y llywodraeth ganolog.

O ran materion sy’n deillio o archwilio cyfrifon 2002-03
y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ei gwneud yn glir i Gadeiryddion cyrff a noddir gan y Cynulliad y dylid ystyried bod gweithredu argymhellion archwilio

y cytunwyd arnynt yn brydlon yn fater perfformiad ar gyfer eu timau uwch reolwyr;

y dylid anfon copi o’r adroddiad hwn gan y Pwyllgor Archwilio, ynghyd ag ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru iddo, at Gadeiryddion a Phrif Weithredwyr pob corff a noddir gan y Cynulliad gan y Prif Swyddog Cyfrifyddu, ynghyd â chais bod y ddwy ddogfen yn cael eu rhoi ar agenda Pwyllgor Archwilio pob corff ar y cyfle cyntaf;

y dylai’r Llywodraeth Cynulliad Cymru gryfhau ei dulliau o oruchwylio’r broses o baratoi cyfrifon, yn arbennig trwy sicrhau bod unrhyw fethiant i gadw at amserlenni y cytunwyd arnynt yn cael ei gyflwyno i sylw’r uwch reolwyr ar y cyfle cyntaf er mwyn i gamau cywiro prydlon gael eu gwneud;

bod blaenoriaeth uwch yn cael ei rhoi i ddwyn paratoi cyfrifon ymlaen lle bynnag y bo modd er mwyn sicrhau y cydymffurfir â menter 'faster closing' y Trysorlys ac er mwyn hwyluso cynhyrchu Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan yn amserol;

y dylai uwch swyddogion y GIG a Llywodraeth y Cynulliad sicrhau y cytunir ar amserlenni realistig a bod adnoddau digonol yn cael eu defnyddio mewn perthynas â pharatoi cyfrifon y byrddau iechyd lleol newydd fel nad yw’r rhain yn peri risg i lwyddo i gynhyrchu Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan yn amserol;

bod pob ymdrech bosibl yn cael ei gwneud i sicrhau bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru’n cyhoeddi’r set fyw gyntaf o gyfrifon Llywodraeth Cymru gyfan ar gyfer 2003-04 yn amserol a’i fod yn bodloni pob un o derfynau amser y Trysorlys ar gyfer cyflwyno gwybodaeth am Gyfrifon Llywodraeth Ganolog y DU, gan osgoi unrhyw risgiau o feirniadaeth allanol a allai fod yn andwyol i’w enw da;

y dylai swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru yn yr adrannau noddi perthnasol gynnwys perfformiad taliadau prydlon y cyrff hyn o fewn eu trefniadau goruchwylio penodol a chytuno ar gynlluniau camau adfer priodol yn ôl yr angen gyda’r perfformwyr gwaethaf.

O ran caffael mewn cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad
bod Llywodraeth Cynulliad Cymru’n sicrhau na chollir momentwm naill ai yn y ffordd y mae gweithgareddau Tîm Caffael Cymru yn symud ymlaen nac ychwaith yng nghyfradd y cynnydd yn yr arbedion posibl a nodwyd. Byddem yn ddiolchgar o gael diweddariad blynyddol ar waith a chyraeddiadau’r Tîm gan yr Archwilydd Cyffredinol;

bod Llywodraeth Cynulliad Cymru’n sicrhau bod camau priodol yn cael eu cymryd gan y cyrff o dan sylw i wireddu’r arbedion posibl a nodwyd gan y Tîm, gan ryddhau adnoddau o fewn y bloc Cymreig cyfyngedig i’w defnyddio mewn mannau eraill ar gyflwyno gwasanaethau cyhoeddus y rheng flaen;

y dylai Tîm Menter Gaffael Cymru gwblhau ei raglen o wiriadau ffitrwydd caffael ar draws pob corff a noddir gan y Cynulliad cyn gynted â phosibl ac y dylai'r gwersi ehangach a'r enghreifftiau o arferion gorau a allai ddeillio o'r ymarferion hyn gael eu lledaenu yn briodol gan y Prif Swyddog Cyfrifyddu;

y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ystyried yn ofalus y potensial ar gyfer cymhwyso ymagwedd y Tîm at sicrhau gwelliannau mewn arferion caffael ar draws y sector cyhoeddus ehangach yng Nghymru.

O ran gwariant a ariennir gan y Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ddatblygu strategaeth glir gydag amcanion mesuradwy fel nad yw'r problemau wrth reoli prosiectau a allai gael effaith andwyol ar y broses derfynu yn y pen draw ar gyfer Rhaglenni presennol Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd Cymru yn digwydd yr ail dro;

bod rhaid i Lywodraeth Cynulliad Cymru fod yn fwy rhagweithiol wrth ei gwneud yn gyfan gwbl glir i noddwyr prosiectau o'r cychwyn cyntaf y safonau rheolaeth ariannol a disgwylir ganddynt er mwyn sicrhau y cydymffurfir yn llawn â gofynion beichus y Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol, gan ddarparu hyfforddiant priodol a chymorth arall yn ôl yr angen, a hefyd sicrhau bod digon o adnoddau'n cael eu neilltuo i fonitro prosiectau gan swyddogion WEFO ac archwilwyr mewnol.

**Cronfeydd Strwythurol yr Undeb Ewropeaidd: Hynt y gwaith o Sicrhau'r Manteision i Gymru**

**Argymhellwn:**

i) Fod WEFO yn manteisio ar yr amser ychwanegol sy'n deillio o ohirio'r gwaith a oedd yn yr arfaeth i uwchraddio'r system gyfrifiadurol i gyflwyno'r system ddiweddaraf sydd wedi'i chynllunio'n benodol i ddiwallu anghenion rhaglenni yn y dyfodol;

ii) Fod WEFO yn awr yn cyflymu'r broses drwy gyflwyno "prosiectau enghreifftiol" ac yn sicrhau ei bod yn cyflawni ei hamcan o ddatblygu wyth prosiect o'r fath erbyn 2005;

iii) Fod WEFO yn adolygu ei tharged o ran amserau arfarnu er mwyn sicrhau ei fod wedi'i ddiffinio'n glir, yn fesuradwy, yn realistig ond hefyd yn heriol;

iv) Fod WEFO yn cymryd camau er mwyn mynd i'r afael â'r ymweliadau monitro prosiectau fel ei bod yn cyrraedd y targed o ddeg y cant cyn gynted â phosibl;

v) Fod WEFO yn cynnwys yr archwiliadau allanol o brosiectau yn y dull yn seiliedig ar risg o fonitro a rheoli prosiectau y mae'n bwriadu ei ddatblygu;

vi) Fod pob cais ar gyfer diddymu grantiau ôl-weithredol yn cael ei dderbyn a'i gymeradwyo gan WEFO yn ddi-oed, ac yn y dyfodol fod terfyn amser rhesymol ar gyfer hyn yn cael ei gynnwys yn y cytundeb grant;

vii) Fod swyddogion y Cynulliad yn monitro a yw Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad ac awdurdodau lleol yn cyflwyno hawliadau grant yn brydlon ac yn trafod unrhyw broblemau o ran perfformiad ar lefel uwch â'r sefydliadau perthnasol;

viii) Er y cydnabyddir nad oes llawer o le i gwtogi yn sgîl gofynion presennol o ran technoleg a gwybodaeth, argymhellwn fod WEFO yn cymryd pob cam posibl i ysgafnhau’r baich ar noddwyr mewn perthynas â llenwi ffurflenni hawlio; a hefyd

ix) Fod WEFO yn ystyried datblygu system o gosbau rhesymol a chymesur ar gyfer achosion pan fydd noddwyr yn methu'n rheolaidd â chyflwyno hawliadau'n brydlon.

**Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru: Rheoleiddio rheoli gwastraff**

Argymhellwn:

i) yn y dyfodol, os ceir deddfwriaeth newydd neu os caiff deddfwriaeth ei ddiweddaru, fod Llywodraeth y Cynulliad yn ceisio sicrhau bod yr holl bwerau perthnasol yn cael eu datganoli i'r Cynulliad;

ii) bod Llywodraeth y Cynulliad yn parhau i annog awdurdodau lleol i ailgylchu gwastraff trefol ac i geisio osgoi ei waredu mewn safleoedd tirlenwi, ond ei bod yn hefyd yn canolbwyntio'i hymdrechion ar leihau'r 24 miliwn tunnell o wastraff a gaiff ei gynhyrchu gan ffynonellau eraill, yn enwedig gwastraff amaethyddol;

iii) bod cynlluniau gwastraff rhanbarthol yn cael eu hadolygu er mwyn nodi'r math o leoliadau lle gellid creu cyfleusterau rhanbarthol. Rydym yn argymell ymhellach fod Llywodraeth y Cynulliad yn cyflwyno cyfarwyddyd i awdurdodau lleol i sicrhau bod Cynlluniau Datblygu Unedol/Lleol yn nodi safleoedd posibl ar gyfer gweithgareddau rheoli gwastraff;

iv) bod Llywodraeth y Cynulliad a'r Asiantaeth yn ystyried nodi sut y mae modd goresgyn y rhwystr a gaiff ei greu gan ddiffyg data ynghylch faint o le ar gael mewn safleoedd tirlenwi;

v) bod Llywodraeth y Cynulliad, fel rhan o'i hymgyrch i godi ymwybyddiaeth, yn ystyried sut y gallai fod yn well addysgu'r cyhoedd a'u cynnwys yn y broses o ddewis ffyrdd o waredu gwastraff;

vi) bod Llywodraeth y Cynulliad, gyda chymorth yr Asiantaeth, yn rhoi ystyriaeth briodol i gasgliadau'r prosiect ymchwil ac yn sicrhau bod iechyd yn dod yn rhan

hanfodol o'r broses gynllunio mewn perthynas â chyfleusterau gwastraff a datblygiadau eraill a all effeithio ar yr amgylchedd ac ar iechyd pobl;

vii) bod yr Asiantaeth a Llywodraeth y Cynulliad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd i fusnesau sy'n ymwneud â chynhyrchu a rheoli gwastraff peryglus ynglyn â'r sefyllfa bresennol mewn perthynas â gwaredu gwastraff peryglus yng Nghymru;

viii) bod yr Asiantaeth, wrth iddi ymgymryd â'i gwaith o roi trwyddedau a chaniatâd, yn cofio bod perygl i ymgynghoriadau cyhoeddus hirfaith arwain at gostau afresymol i'r gweithredwyr, ac y gall y costau hynny fod yn ddigon o rwystr iddynt beidio ag agor cyfleusterau gwaredu a thrin gwastraff y mae eu dirfawr angen;

ix) bod Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru yn cynnal adolygiad manwl o'i chofrestr o eithriadau ac yn clustnodi'r gweithgareddau hynny sy'n peryglu'r amgylchedd fwyaf gan sicrhau eu bod yn cael eu rheoleiddio'n briodol cyn ac ar ôl i'r rheoliadau newydd ddod i rym;

x) bod Llywodraeth y Cynulliad yn sicrhau bod pob awdurdod lleol yn cofrestru ac yn defnyddio system *Flycapture* heb oedi ymhellach;

xii) bod Llywodraeth y Cynulliad ac Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru yn ystyried a'i dosbarthu taflenni drwy awdurdodau lleol yw'r ffordd fwyaf effeithiol o ddysgu busnesau am y system dyletswydd gofal ym maes gwastraff ac a ddylent ystyried ffyrdd eraill o godi ymwybyddiaeth;

xii) bod yr Asiantaeth a Llywodraeth y Cynulliad yn cynnal adolygiad o'r modd y caiff troseddwyr eu dedfrydu yng Nghymru ac yn ceisio dylanwadu ar y cyrff priodol yn San Steffan. Rydym hefyd yn argymell bod yr Asiantaeth yn datblygu pecyn cymorth 'Costio'r Ddaear' yng nghyd-destun Cymru er mwyn codi ymwybyddiaeth o drosedd amgylcheddol ymhlith ynadon a barnwriaeth Cymru.

**Caffael yn y Sector Addysg Uwch yng Nghymru**

Argymhellwn:

i) dylai'r Cyngor weithredu cyn gynted ag y bo'n ymarferol y mesurau a gyhoeddwyd ganddo i wella'r lefel o arbenigedd, ymgymryd â phrofion ffitrwydd ym maes caffael ym mhob sefydliad a datblygu'r dull consortiwm;

ii) o fewn deuddeg mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn, dylai'r Cyngor roi i'r Pwyllgor hwn y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd;

iii) dylai'r Cyngor gyd-gysylltu gweithgareddau yn unol â'r arfer gorau ym maes rheoli prosiectau, monitro'n drylwyr y broses o roi'r cynlluniau gweithredu ar waith, a rhoi adroddiadau ar gynnydd yn achlysurol i Lywodraeth y Cynulliad;

iv) dylai'r Cyngor adolygu ei gynlluniau'n ffurfiol bob blwyddyn, gan ymgynghori â'r sefydliadau a nodi unrhyw newidiadau angenrheidiol, er mwyn cynnal y momentwm unwaith y bydd y cyfnodau cychwynnol wedi mynd heibio;

v) dylai'r Cyngor asesu'r lefel o arbenigedd sydd ar gael i'r sector, ac i sefydliadau unigol, a datblygu strategaeth briodol i sicrhau bod gan bob rhan o'r sector fynediad at arbenigedd proffesiynol digonol. Dylid trefnu hyn i sicrhau'r budd gorau posibl i'r sector cyfan;

vi) dylai'r Cyngor ofyn i bob sefydliad ddatblygu strategaeth gaffael drylwyr, monitro'r modd y caiff ei gweithredu a'i hadolygu'n rheolaidd. Dylai'r Cyngor ddefnyddio cymorth proffesiynol, o'i rengoedd ei hun neu rai eraill, i asesu ansawdd pob strategaeth ac argymell gwelliannau pan fo'n briodol;

vii) dylai pob sefydliad osod targed arbedion fydd o leiaf yn dri y cant o'i wariant caffael presennol, yn unol â'r targed cenedlaethol yn *Creu'r Cysylltiada*u, a dylai'r Cyngor gynorthwyo i gyflawni'r targed hwn a monitro'r broses o gyflawni;

vii) dylai'r Cyngor weithio'n agos â sefydliadau unigol i gyflawni gwelliannau ymarferol o ran gwerth am arian o'u prosesau caffael, gan ystyried yn llawn argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol ynghylch y materion perthnasol, ynghyd â'n hargymhellion ninnau.

**Amseroedd aros y GIG yng Nghymru**

1. **Er gwaethaf gostyngiadau diweddar, mae lleiafrif sylweddol o gleifion yng Nghymru wedi parhau i wynebu amseroedd aros annerbyniol o dros 18 mis. Mae amseroedd aros yng Nghymru yn cymharu'n wael â Lloegr a'r Alban, er bod amseroedd aros yn hwy yng Ngogledd Iwerddon.** Yn Atodiad C ceir datganiad Llywodraeth Cynulliad Cymru, bythefnos ar ôl ein sesiwn tystiolaeth terfynol, am dargedau amseroedd aros newydd y bwriedir iddynt gyflawni cyfanswm amser aros o chwe mis erbyn 2009. Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ac ymddiriedolaethau ddatblygu modelau systematig o weithgaredd, galw a chapasiti i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r
targedau hyn.

2. **Mae cryn amrywiaeth mewn amseroedd aros yng Nghymru.** Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ddefnyddio'r ailddosbarthu adnoddau, sy'n deillio o weithredu Adolygiad Townsend, i gyrraedd anghenion iechyd yn well ac o ganlyniad leihau'r amrywiaethau rhanbarthol presennol o ran
amseroedd aros a welir yn Ffigur 1 yr adroddiad hwn.

3. **Mae diffyg strategaeth eglur gyffredinol i leihau amseroedd aros yng Nghymru wedi cyfrannu at y lefel bresennol o berfformiad ynghylch amseroedd aros. Cafwyd gwendidau hefyd yn y gwaith o reoli perfformiad, ac maent wedi arwain at**

**y farn fod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gwobrwyo pobl am fethu cyflawni targedau; ac, ar yr un pryd, prin fu'r cymhelliant i sefydliadau sy'n perfformio'n well fynd ati i wella eu perfformiad.** Yr ydym yn cydnabod bod gan wahanol sefydliadau fannau cychwyn gwahanol. Mae cynnwys clinigwyr yn allweddol i'r gwaith o gyflawni amseroedd aros gwell i gleifion, ac mae peryglon arbennig yn nodweddu targedau a orfodir ar glinigwyr heb iddynt eu meddiannu. O fewn fframwaith strategol, dylai sefydliadau lleol wedyn gynhyrchu eu targedau lleol eu hunain, a'r rheini wedi derbyn cytundeb staff clinigol a'u meddiannu ganddynt, ar gyfer mesurau perfformiad allweddol, gan gynnwys amseroedd aros a'u hachosion sylfaenol. Dylai'r targedau lleol hyn adlewyrchu safleoedd cychwynnol y sefydliadau, a dylai Swyddfeydd Rhanbarthol graffu arnynt, eu herio a'u monitro. Dylai fframwaith cadarn o gymhellion a sancsiynau gefnogi'r gwaith o gyflawni'r targedau hyn a gwobrwyo perfformiad da.

4. **Cymharol ychydig o glustnodi capasiti dewisol a wneir gan GIG Cymru o gymharu â Lloegr a'r Alban. Mae datblygiadau newydd ar waith ond rhai hirddisgwyliedig ydynt.** Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru a chymunedau iechyd gynyddu ymhellach faint o glustnodi capasiti dewisol sydd ar gael i wella effeithlonrwydd a chyflymder GIG Cymru yn y gwaith o drin cleifion o'r rhestr aros. Yn arbennig, fe ddylent, fel Lloegr, ddefnyddio dull strategol o ddatblygu capasiti yn ôl rhanbarth, un ai drwy ddatblygiadau cyfalaf neu drwy ailddynodi adnoddau presennol.

5. **Drwy strategaethau comisiynu Byrddau Iechyd Lleol, gellir gwella perfformiadau amseroedd aros.** Yr ydym yn argymell y dylai comisiynwyr ddefnyddio eu strategaethau comisiynu i newid modelau gwasanaeth a gostwng amseroedd aros, yn arbennig drwy gomisiynu yn ôl llwybrau a
chanlyniadau'r cleifion, yn hytrach na modelau traddodiadol o gyflenwi gwasanaethau. Hefyd, dylai Byrddau iechyd Lleol gydweithio i leihau dyblygu, a dylent rannu sgiliau a gofalu bod eu strategaethau comisiynu yn cael yr effaith fwyaf posibl – o fewn eu rhanbarth ac ar draws Gymru gyfan.

6. **Mae hi'n angenrheidiol i gymunedau iechyd lleol reoli'r galw drwy ddarparu gwasanaethau sy'n hygyrch i gleifion ac sy'n adlewyrchu'r modd y mae cleifion yn cael mynediad at y gwasanaethau ac yn eu defnyddio.** O ganlyniad, argymhellwn fod cymunedau iechyd yn ceisio gofalu bod gwasanaethau ac anghenion y cleifion yn cyfateb, er enghraifft drwy gydasio gwasanaethau allan o oriau â gwasanaethau damweiniau ac achosion brys; datblygu llwybrau i reoli afiechydon cronig yn fwy priodol; drwy ddatblygu neu ehangu unedau asesu meddygol; a thrwy ddatblygu rolau newydd fel bod y gweithwyr proffesiynol mwyaf priodol yn trin cleifion yn y lleoliad mwyaf priodol. Dylent hefyd sefydlu systemau i gynnull data am atgyfeiriadau a sefydlu mecanweithiau i alluogi ymgynghorwyr i roi adborth i feddygon teulu ynghylch ansawdd yr atgyfeiriadau a dewisiadau eraill yn lle atgyfeirio at arbenigwr.

7. **Ceir tystiolaeth fod yr Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd, a'r cyrff a'i rhagflaenodd, wedi cefnogi arloesi a moderneiddio effeithiol o fewn rhannau o GIG Cymru, ond bod cryn gyfle i ledaenu arfer gorau ymhellach, yn arbennig drwy gynnwys pob clinigwr mewn modd mwy effeithiol.** Argymhellwn fod yr Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd yn cynnwys

clinigwyr sy'n gwrthwynebu ffyrdd newydd o weithio, yn ogystal â'r rheini sy'n fodlon gweithredu fel hyrwyddwyr newid, er mwyn gwella'r gwaith o ofalu am gleifion, a gwella effeithlonrwydd ac amseroedd aros, drwy ledaenu arferion gorau cydnabyddedig drwy GIG Cymru.

8. **Mae cyfraddau canslo triniaethau yn annerbyniol ac yn adlewyrchu, yn rhannol, wendidau yn y prosesau asesu cyn llawdriniaeth.** Argymhellwn y dylai ymddiriedolaethau ostwng nifer y llawdriniaethau a gaiff eu canslo, er enghraifft drwy gryfhau eu prosesau asesu cyn llawdriniaeth a thrwy geisio ymestyn systemau archebu a'u defnyddio ar gyfer triniaethau cleifion mewnol/achosion dydd. Pe na bai gostyngiad yn nifer presennol y llawdriniaethau sy'n cael eu canslo, dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gynnwys yn Fframwaith Gwasanaeth a Chyllid y flwyddyn nesaf darged ar gyfer y cymunedau iechyd i leihau nifer y triniaethau sy'n cael eu canslo.

9. **Gellid gwella trwygyrch cleifion pe bai gan ymddiriedolaethau brosesau rhyddhau mwy effeithlon a fyddai'n cynllunio rhyddhau cleifion cyn gynted ag y cânt eu derbyn.** Argymhellwn y dylai pob ymddiriedolaeth ddatblygu prosesau a phrotocolau er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael eu rhyddhau mor amserol ag sy'n bosibl. Dylai'r prosesau a'r protocolau gynnwys yr arfer o osod dyddiadau targed ar gyfer y cleifion cyn gynted ag y cânt eu derbyn, moderneiddio trefniadau fferyllol, ymestyn yr amrediad o weithwyr proffesiynol ym maes gofal iechyd sy'n gallu rhyddhau cleifion, a sicrhau bod rowndiau'r wardiau yn cael eu hamseru mewn modd fydd yn hwyluso'r ffordd i gleifion newydd gael eu derbyn cyn gynted ag y bo modd.

10. **Mae graddau'r oedi wrth drosglwyddo gofal, heb gynnwys gohiriadau ym maes iechyd meddwl, yn dreth ddifrifol ar y sector gofal eilaidd, ac yn cyfrif am y cyfartaledd o 723 o welyau bob dydd rhwng Tachwedd 2003 a Mehefin 2004.** O ganlyniad, argymhellwn y dylai cymunedau iechyd leihau effaith yr oedi wrth drosglwyddo gofal sy'n deillio o ddewis y claf drwy ddatblygu a dewis mannau aros yn lleoliadau'r cymunedau; gellir gosod cleifion yn y mannau hynny tra bônt yn aros am eu gofal cartref dewisedig.

11. **Gellid gwella amseroedd amser pe bai GIG Cymru yn gwneud gwell defnydd o'i gapasiti presennol, yn arbennig drwy wella'r modd y caiff gwelyau a theatrau llawdriniaethau eu defnyddio, a gwella hyd yr eithaf raddfeydd llawdriniaethau dydd.** Yr ydym felly'n argymell mai dim ond y sefydliadau hynny sy'n gallu dangos yn eglur eu bod yn defnyddio'n effeithiol y capasiti sydd ganddynt eisoes ddylai gael arian ychwanegol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Fel arall, unig effaith cyllido ychwanegol yw atgyfnerthu'r defnydd gwael a wneir o gapasiti ar hyn o bryd.

12. **Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gwneud defnydd helaeth o gyllid achlysurol ychwanegol i redeg 'mentrau amseroedd aros' yn y sector preifat neu fin nos neu ar benwythnosau yng nghyfleusterau'r GIG. Er y gall cyllido achlysurol fod yn fuddiol mewn rhai amgylchiadau, mae mentrau wedi digwydd dros ormod o flynyddoedd heb iddynt lwyddo i gyflawni atebion cynaliadwy i'r**

**broblem amseroedd aros. Y rheswm am hyn, i raddau helaeth, yw nad ydynt yn mynd i'r afael ag achosion sylfaenol amseroedd aros hir.** Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ganiatáu i gyllid achlysurol gael ei ddefnyddio, nid yn unig i drin cleifion ychwanegol, ond hefyd i gyflawni newid cynaliadwy drwy fynd i'r afael ag achosion sylfaenol amseroedd aros hir yn eu cymunedau iechyd. Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru sicrhau bod cyllid achlysurol yn amodol ar dargedau penodol i ostwng amseroedd aros a'u hachosion sylfaenol, a dylent ddefnyddio trefn adfachu pan fo cymunedau iechyd yn methu cyflawni'r cyfryw dargedau.

13. **Mae Cynllun yr Ail Gynnig wedi cyfrannu at ostyngiadau diweddar yn amseroedd aros triniaethau cleifion mewnol ac achosion dydd, ond mae risgiau cynhenid yn perthyn i'r dull hwn a dylid eu rheoli'n ofalus.** Argymhellwn yn arbennig y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru weithredu rheolaethau i sicrhau nad yw GIG Cymru yn talu ddwywaith am drin yr un claf o ganlyniad i atgyfeirio at Gynllun yr Ail Gynnig. Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ymgynghori â Byrddau Iechyd Lleol ynghylch datblygiadau arfaethedig dan Gynllun yr Ail Gynnig fel eu bod yn gyson â strategaethau comisiynu lleol

**Atodiad 4**

**Ystyriaeth o Amcangyfrif o Incwm a Threuliau Archwilydd Cyffredinol Cymru am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2006 ac archwiliadau rhaglen gwerth am arian 2005-06**

Yn ei gyfarfod ar 30 Medi 2004, cymeradwyodd y Pwyllgor amcangyfrif Archwilydd Cyffredinol Cymru o incwm a threuliau Swyddfa Archwilio Cymru am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2006. Cytunwyd y dylai'r gyllideb ar gyfer archwiliadau gwerth am arian yr Archwilydd Cyffredinol fod yn £4.2 miliwn i gynnal gwaith archwiliadau ariannol a gwerth am arian yn 2005-06, sy'n cynrychioli cynnydd o £1.35 miliwn mewn adnoddau. Byddai'r cynnydd mewn adnoddau'n talu am waith archwilio ychwanegol sy'n deillio o ailstrwythuro cyrff cyhoeddus yng Nghymru; gwaith llywodraethu corfforaethol ychwanegol a setliad ariannol Adolygiad o Wariant 2004; cynnydd mewn cyfraniadau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS); cefnogaeth i seilwaith a chostau gwasanaethau canolog y Swyddfa Archwilio Cymru newydd; a chynnydd mewn cyflogau a chostau eraill sy'n deillio o chwyddiant.

Wrth wneud sylwadau ar raglen archwiliadau gwerth am arian SAC am 2005-06, gofynnodd yr Aelodau i SAC ystyried cynnwys yn yr archwiliad arfaethedig ‘Gwella cyfranogiad a chwblhad mewn addysg uwch' ystyriaeth o'r adnoddau sydd ar gael i sefydliadau, yr adnoddau a ddefnyddiwyd gan sefydliadau i wella mynediad, a'u dull rheoli cyffredinol, a allai fod yn rhwystr ynddo'i hun. Hefyd teimlwyd y dylai unrhyw archwiliad yn y dyfodol i ‘Iechyd ariannol sefydliadau addysg bellach’ ddangos i ba raddau y mae sefydliadau addysg bellach wedi dod yn ddibynnol ar arian Ewropeaidd a dylai'r archwiliad amgen arfaethedig o 'Fodlonrwydd cwsmeriaid Amgueddfeydd' gynnwys Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

Awgrymodd y Pwyllgor y dylai'r rhaglen gynnwys archwiliad o 'gymhwysedd masnachol' o fewn y Cynulliad a'r cyrff cyhoeddus a noddir ganddo; ac yng ngolwg rhwymedigaeth statudol y Cynulliad i hybu datblygu cynaliadwy, dylid rhoi digon o sylw i ‘Datblygu Cynaliadwy: gwneud penderfyniadau a mesur perfformiad' er mwyn sicrhau bod hyn yn arwain at gynhyrchu adroddiad cyn diwedd yr Ail Gynulliad..

Cyflwynwyd y rhaglen olaf ar archwiliadau gwerth am arian ar gyfer 2004-05 i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 21 Ebrill gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, Mr Jeremy Colmam, sydd newydd ei benodi. Mae'r rhaglen yn cynnwys archwilio'r canlynol:

- Rheoli clefydau cronig;
- Y contract Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol (GMS) newydd;
- Mynediad y cyhoedd i gefn gwlad;
- Uniadau a chydweithredu rhwng sefydliadau addysg bellach ac uwch;
- Cymorth Rhanbarthol Dewisol (RSA) a grantiau datblygu eraill;
- Y Rhaglen Grantiau Digartrefedd a Phobl heb Do Uwch eu Pennau;
- Cynyddu gweithgarwch corfforol a'i fanteision;
- Caffael yr adeilad newydd ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

- Gwasanaethau i blant.

**Atodiad 5**

***Gwaith sy'n mynd ymlaen ac wedi'i gynllunio***

Mae'r Pwyllgor yn y broses o gynhyrchu adroddiadau ar reoli ynni a dŵr yn y sector addysg uwch ac absenoldeb oherwydd salwch yn y sector addysg bellach. Mae'n bwriadu eu cyhoeddi yn ystod tymor haf 2005. Bydd yr adroddiadau'n deillio o ystyriaeth y Pwyllgor o adroddiadau'r Archwilydd Cyffredinol '*Rheoli ynni a dŵr yn y sector addysg uwch yng Nghymru*' a '*Rheoli Absenoldeb Oherwydd Salwch yn y Sector Addysg Bellach yng Nghymru'* yn y drefn honno.

Bydd y Pwyllgor yn clywed tystiolaeth yn deillio o'r adroddiadau canlynol gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn ystod tymor haf 2005:

- Cyllidau'r GIG Cymru 2005;
- Adroddiad Cyffredinol Archwilydd Cyffredinol Cymru 2005.

Gellir gweld yr adroddiadau uchod gan yr Archwilydd Cyffredinol ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru[12].

Bwriedir i raglen y Pwyllgor am yr Hydref gynnwys ystyriaeth i amcangyfrif yr Archwilydd Cyffredinol o incwm a threuliau am y flwyddyn yn dod i ben Mawrth 2007, ynghyd â'r archwiliadau gwerth am arian arfaethedig.

---

[12] www.wao.gov.uk